

COFNODION PWYLLGOR GWEITHGAREDDAU Y SIR
A GYNHALIWYD AR
NOS FERCHER 17^{eg} O DACHWEDD 2021

CADEIRYDD:	Sioned Caryl Davies
YMDDIHEURIADAU:	Esyllt Ellis-Jones; Elin Calan Jones
PRESENNOL:	22 yn ôl llyfr presenoldeb

01 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Elen Rebecca Jones ac eiliwyd gan Angharad Davies.

02 Materion yn codi o'r cofnodion

Nid oedd yna faterion yn codi.

03 Derbyn adroddiadau Pwyllgor Cystadlaethau C.Ff.I. Cymru

Nid oedd yna adroddiad l'w gael. Cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.

04 Eisteddfod

Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn ddiwedd mis Hydref er gwaethag y cyfyngiadau 'Covid'.
Roedd hwn yn gystadleuaeth fawr gyntaf i'w chynnal ar ôl ail-agor ac roedd y safon yn uchel iawn.
Derbyniwyd yr adborth ganlynol:
Roedd yn braf bod nôl yn cytsadlu wyneb-yn-wyneb a braf gweld cynifer wedi cystadlu. Roedd hi'n anodd i glywed y piano o'r llwyfan ond roedd pawb yn hapus gyda'r cyfeilyddion.

Penderfynwyd ar ddyddiad a lleoliad ar gyfer yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf sef y 3ydd a'r 5ed o Dachwedd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
Etholwyd y beirniaid canlynol i feirniadu:-
Cerdd – Joy Cornock
Llefaru – Elen Morgan
Llên – Hanna Hopwood
Ysgafn – Aled Hall

05 Diwrnod Maes y Sir

Cafwyd diwrnod da o gystadlu yn y Diwrnod Maes ar Fferm Trawscoed yn ddiweddar ac mi wnaeth pob beirniad ganmol safon uchel oedd gennych.
Derbyniwyd yr adborth ganlynol:-
Roedd yr holiadur hŷn yn anodd; angen gwirio rheolau ATV cyn y gystadleuaeth; efallai byddai'n braf cael llun o'r darnau ar gyfer y gystadleuaeth Cyw lâr.
Nododd Anne byddai anfonebau yn cael eu dosbarthu am y Cyw lâr a'r Ffensio pan ddônt i law.

06 Siarad Cyhoeddus Saesneg

Cynhelir y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg ar y penwythnos cyntaf ymmis Rhagfyr sef y 4ydd a'r 5ed.
Dyma'r beirniaid
Adran Ddarllen – Dal i ddisgwyl ateb wrth Katie Davies
Adran Iau – Dal i ddisgwyl ateb wrth Andrew James
Adran Ganol – Seiat Holi – Dai Davies
Adran Hyn – Siarad ar Ôl Cinio – Peter Llewellyn

Nodwyd bydd yr oedrannau 16 a 21 yn cystadlu ar y Dydd Sadwrn gyda'r oedrannau 14 a 28 yn cystadlu ar y Dydd Sul.

07 Siarad Cyhoeddus Cymraeg

Cynhelir y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg ar y 22 a 23 o Ionawr. Gofynnwyd am awgrymiadau am enwau beirniaid i'r gystadleuaeth. Hefyd cynigiwyd enw Coleg Llambod fel lleoliad ar gyfer cynnal y gystadleuaeth.

Derbyniwyd enw Aled Jones ar gyfer yr Adran Hŷn – Siarad Ar Ôl Cinio.

08 Pantomeim y Sir

Gofynnwyd i bob clwb adrodd yn ôl beth fyddai orau gan eu clybiau i wneud fel bod ein cynrychiolwyr yn medru mynd a barn yr aelodau i gyfarfodydd CFFI Cymru wrth ystyried y ffactorau risg eleni wrth gystadlu. Gofynnwyd am enwau beirniaid ar gyfer yr wythnos Adloniant a phenderfynwyd i'r Clybiau ddanfon enwau ymlaen i'r Swyddfa.

09 Chwaraeon y Sir

Penderfynwyd ei roi ar Agenda ym mis Ionawr.

10 Dawns Nadollig

Penderfynwyd cynnal dawns ar gyfer aelodau'r Sir yn unig ac mi fyddai rhaid iddynt fod yn aelodau/aelodau cyswllt erbyn y 12fed o Ragfyr. Roedd Anne yn disgwyl i glywed yn ôl oddi wrth Pier, Aberystwyth ond penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda gwesty'r Marine hefyd.

11 Cwis y Sir

Cynhelir Cwis y Sir ar yr 17eg o Ionawr yng Ngholeg Llambod.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____